

# POLISI DIOGELU DATA

## Cyflwyniad

Mae Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yn sicrhau cydbwysedd rhwng hawl unigolyn i breifatrwydd a'r gweithgarwch i brosesu data personol yn gyfreithlon a gyflawnir gan sefydliadau wrth gynnal eu busnes. Ei nod yw diogelu hawliau unigolion y caiff data amdanynt ei gasglu, ei storio, ei brosesu neu ei gyflenwi ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gymryd mesurau diogelwch priodol yn erbyn cyrchu addasu, datgelu neu ddifa data personol heb awdurdod.

Bydd yr Ysgol yn diogelu ac yn cynnal cydbwysedd rhwng hawliau diogelu data yn unol â GDPR y DU. Mae'r polisi hwn yn nodi sut yr ydym yn trin data personol ein disgyblion, rhieni, cyflenwyr, cyflogeion, gweithwyr a thrydydd partïon eraill.

Nid yw'r polisi hwn yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth unrhyw unigolyn gyda'r Ysgol ac nid yw wedi'i fwriadu i fod ag effaith gytundebol. Bydd newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu data'n cael eu monitro a gall fod yn ofynnol gwneud diwygiadau pellach i'r polisi hwn er mwyn parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae'n ofynnol i'r holl aelodau o staff ymgyfarwyddo â'i gynnwys a chydymffurfio â'r darpariaethau a geir ynddo. Bydd torri'r polisi hwn yn cael ei drin fel tramgwydd disgyblu a allai arwain at gamau disgyblu dan Bolisi a Gweithdrefn Disgyblu'r Ysgol hyd at a chan gynnwys diswyddiad diannod gan ddibynnu ar ddifrifoldeb yr achos o dorri'r polisi.

## **ADRAN 1 - DIFFINIADAU**

### **Data personol**

Ystyr data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn lle gellir adnabod yr unigolyn (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r data hwnnw yn unig neu ar y cyd â dynodwyr eraill sydd yn ein meddiant neu y gallwn yn rhesymol gael mynediad atynt. Mae hyn yn cynnwys data categori arbennig a data personol dan ffugenw ond nid yw'n cynnwys data dienw na data y mae manylion adnabod yr unigolyn wedi'u gwaredu ohono'n barhaol.

Gall data personol fod yn ffeithiol (er enghraifft enw, cyfeiriad e-bost, lleoliad neu ddyddiad geni) neu'n farn am weithredoedd neu ymddygiad y person hwnnw.

Bydd data personol yn cael ei storio naill ai'n electronig neu fel rhan o system ffeilio bapur strwythuredig yn y fath fodd fel y gellir ei adfer yn awtomatig trwy gyfeirio at yr unigolyn neu feini prawf sy'n ymwneud â'r unigolyn.

### **Data Categori Arbennig**

Mae Data Categori Arbennig, yr arferid ei alw'n "Ddata Personol Sensitif", yn debyg o ran diffiniad ac yn cyfeirio at ddata sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig Gwrthrych Data, ei ddaliadau gwleidyddol neu grefyddol, aelodaeth o undeb llafur, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, rhywioldeb, data biometrig neu genetig a data personol sy'n ymwneud â throseddau ac euogfarnau.

### **Gwrthrych y Data**

Caiff unigolyn y mae gwybodaeth o'r fath amdano'n cael ei storio ei adnabod fel Gwrthrych y Data. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion ymhlith eraill.

### **Rheolydd Data**

Cyfeirir at y sefydliad sy'n storio ac yn rheoli gwybodaeth o'r fath (h.y. yr Ysgol) fel y Rheolydd Data.

## **Prosesu**

Mae prosesu data'n golygu unrhyw weithgaredd sy'n cynnwys defnyddio data personol. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill: cael, cofnodi neu ddal data neu gyflawni unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau ar y data hwnnw megis ei drefnu, ei ddiwygio, ei adfer, ei ddefnyddio, ei ddatgelu, ei ddileu neu ei ddifa. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trawsyrru neu drosglwyddo data personol i drydydd partion.

## **Prosesu Awtomatig**

Unrhyw fath o weithgarwch awtomatig i brosesu data personol sy'n cynnwys defnyddio data personol i werthuso rhai agweddau personol penodol sy'n ymwneud ag unigolyn, yn arbennig i ddadansoddi neu ragweld agweddau ar berfformiad yr unigolyn hwnnw yn y gwaith, ei sefyllfa economaidd, ei iechyd, ei ddewisiadau personol, ei ddiddordebau, ei ddibynadwyedd, ei ymddygiad, ei leoliad neu ei symudiadau.

Mae enghraifft o brosesu awtomatig yn cynnwys proffilio a gwneud penderfyniadau'n awtomatig. Mae gwneud penderfyniadau'n awtomatig yn golygu pan wneir penderfyniad sy'n seiliedig yn llwyr ar brosesu awtomatig (heb ymyrraeth ddynol) sy'n dwyn effeithiau cyfreithiol neu sy'n effeithio'n sylweddol ar unigolyn. Gwaherddir gwneud penderfyniadau'n awtomatig ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.

## **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data**

Offeryn yw Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data i adnabod risgiau mewn gweithgareddau prosesu data gyda golwg ar eu lleihau.

## **Gwybodaeth o Gofnodion Troseddol**

Mae hyn yn cyfeirio at wybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau, honiadau, achosion cyfreithiol, a mesurau diogelwch cysylltiedig.

## **ADRAN 2 – PRYD ALL YR YSGOL BROSESU DATA PERSONOL**

### **Egwyddorion Diogelu Data**

Mae'r Ysgol yn gyfrifol am yr egwyddorion sy'n ymwneud â phrosesu data personol fel a nodir yn GDPR y DU ac yn ymlynu wrthynt.

Caiff yr egwyddorion y mae'n rhaid i'r Ysgol ymlynu wrthynt eu nodi isod.

### **Egwyddor 1: Rhaid i ddata personol gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw**

Dim ond yn deg ac yn gyfreithlon ac at ddibenion penodol y mae'r Ysgol yn casglu, yn prosesu ac yn rhannu data personol. Rhaid bod gan yr Ysgol ddiben penodedig i brosesu data personol a data categori arbennig fel a nodir yn GDPR y DU.

Cyn bod y prosesu'n dechrau am y tro cyntaf byddwn yn adolygu dibenion y gweithgaredd prosesu penodol ac yn dewis y sail gyfreithlon fwyaf priodol ar gyfer y prosesu hwnnw. Wedyn byddwn yn adolygu'r dibenion hynny'n rheolaidd tra bo'r prosesu'n parhau er mwyn ein hargyhoeddi ein hunain bod y prosesu'n angenrheidiol at ddiben y sail gyfreithlon berthnasol (h.y. nad oes unrhyw ffordd resymol arall o ateb y diben hwnnw).

### Data Personol

Dim ond os bodlonir un o'r amodau prosesu teg canlynol y gall yr Ysgol brosesu data personol gwrthrych data: -

- Mae gwrthrych y data wedi rhoi ei gydsyniad;
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol i gyflawni contract gyda gwrthrych y data neu i gymryd camau ar ei gais i ymrwymo i gontract;
- I ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data;
- I gyflawni ein rhwymedigaethau o ran cydymffurfio â'r gyfraith (ar wahân i rwymedigaeth gytundebol);
- I gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu er mwyn cyflawni swyddogaethau swyddogol fel a awdurdodir gan y gyfraith;
- At ddibenion buddiannau dilys yr Ysgol lle awdurdodir hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae hyn ar yr amod na fyddai'n peryglu hawliau a rhyddid neu fuddiannau dilys gwrthrych y data.

### Data Categori Arbennig

Dim ond os oes ganddi hawl i brosesu data personol (gan ddefnyddio un o'r amodau prosesu teg uchod) AC os bodlonir un o'r amodau canlynol y gall yr Ysgol brosesu data categori arbennig: -

- Mae gwrthrych y data wedi rhoi ei gydsyniad penodol;
- Mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion arfer neu gyflawni unrhyw hawl a roddir i'r Ysgol neu rwymedigaeth a osodir arni ym maes cyfraith cyflogaeth, cyfraith nawdd cymdeithasol neu gyfraith amddiffyn cymdeithasol. Gall hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, ymdrin ag absenoldeb oherwydd salwch, ymdrin ag anabledd a gwneud addasiadau ar gyfer hynny, trefnu yswiriant gofal iechyd preifat a darparu tâl salwch cytundebol;
- I ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data;
- I gyflawni ein rhwymedigaethau o ran cydymffurfio â'r gyfraith (ar wahân i rwymedigaeth gytundebol);
- Lle mae'r data wedi cael ei wneud yn gyhoeddus gan wrthrych y data;
- I gyflawni tasg er budd sylweddol y cyhoedd neu er mwyn cyflawni swyddogaethau swyddogol fel a awdurdodir gan y gyfraith;
- Lle mae'n angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, i asesu gallu'r cyflogai i weithio, i gyflawni diagnosis meddygol, i ddarparu gofal neu driniaeth iechyd neu gymdeithasol neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol;
- Lle mae'n angenrheidiol am resymau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd;
- Lle mae'r prosesu'n angenrheidiol at ddibenion archifo, ystadegol neu ymchwil.

Mae'r Ysgol yn adnabod ac yn dogfennu'r seiliau cyfreithiol a ddibynnir arnynt ar gyfer pob gweithgaredd prosesu.

### Cydsyniad

Lle mae'r Ysgol yn dibynnu ar gydsyniad fel amod teg ar gyfer prosesu (fel a nodir uchod), bydd yn ymlynu wrth y gofynion a nodir yn GDPR y DU.

Rhaid i gydsyniad gael ei roi'n rhydd, bod yn benodol, yn wybodus a bod yn arwydd diamwys o ddymuniadau gwrthrych y data a ddefnyddir ganddynt i ddynodi cytundeb i brosesu data personol sy'n ymwneud â hwy. Ar gyfer cydsyniad penodol mae'n ofynnol cael datganiad eglur a phenodol iawn i ddibynnu arno (h.y. mae'n ofynnol cael mwy na dim ond gweithred).

Bydd gwrthrych data wedi rhoi cydsyniad i brosesu eu data personol os ydynt yn dynodi cytundeb â phrosesu naill ai trwy ddatganiad neu weithred gadarnhaol. Ar gyfer cydsyniad mae gweithred gadarnhaol yn ofynnol, felly ni fydd tawelwch, blychau wedi'u ticio ymlaen llaw neu anweithgarwch yn gyfystyr â chydsyniad dilys.

Rhaid i wrthrychau data allu tynnu eu cydsyniad i brosesu yn ôl yn rhwydd ar unrhyw adeg a rhaid i weithred i dynnu cydsyniad yn ôl gael ei hanrhydeddu'n ddiymdroi.

Os yw'n ofynnol cael cydsyniad penodol, fel arfer bydd yr Ysgol yn ceisio sail gyfreithiol arall i brosesu'r data hwnnw. Fodd bynnag, os yw'n ofynnol cael cydsyniad penodol bydd gwrthrych y data'n cael gwybodaeth lawn er mwyn darparu cydsyniad penodol.

Bydd yr Ysgol yn cadw cofnodion o gydsyniadau a gafwyd er mwyn dangos y cydymffurfiwyd â gofynion cydsynio dan GDPR y DU.

## **Egwyddor 2: Rhaid i ddata personol gael ei gasglu dim ond at ddibenion penodedig, eglur a dilys**

Ni fydd data personol yn cael ei brosesu mewn unrhyw fater sy'n anghydnaws â'r dibenion dilys.

Ni fydd yr Ysgol yn defnyddio data personol at ddibenion newydd, gwahanol neu anghydnaws o'i gymharu â'r hyn a ddatgelwyd pan gafwyd y data gyntaf oni bai ein bod wedi hysbysu gwrthrych y data ynghylch y diben newydd (a'u bod hwythau wedi rhoi cydsyniad lle y bo'n angenrheidiol).

## **Egwyddor 3: Rhaid i ddata personol fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer**

Dim ond pan fo'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau'n ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny y bydd yr Ysgol yn prosesu data personol. Ni fyddwn yn casglu data gormodol a byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddata personol a gesglir yn ddigonol ac yn berthnasol at y dibenion bwriadedig.

Pan nad oes angen data personol mwyach ar gyfer dibenion penodedig, bydd yr Ysgol yn dileu'r data neu'n ei wneud yn ddiennw. Cyfeirier at Bolisi Cadw Data CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gael arweiniad pellach.

## **Egwyddor 4: Rhaid i ddata personol fod yn gywir a, lle y bo'n angenrheidiol, cael ei ddiweddarau'n gyson**

Bydd yr Ysgol yn ymdrechu i gywiro neu ddileu unrhyw ddata anghywir sy'n cael ei brosesu trwy wirio cywirdeb y data personol ar adeg ei gasglu ac ar adegau rheolaidd wedi hynny. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddifa neu ddiwygio data personol sy'n anghywir neu sy'n hen.

Mae rhwymedigaeth ar wrthrychau data hefyd i sicrhau bod eu data'n gywir, yn gyflawn, yn gyfoes ac yn berthnasol. Mae gan wrthrychau data'r hawl i ofyn am gywiro data anghyflawn neu anghywir a ddelir gan yr Ysgol.

## **Egwyddor 5: Rhaid i ddata personol beidio â chael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am yn hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data ei brosesu ar eu cyfer**

Gall dibenion dilys y mae'r data'n cael ei brosesu ar eu cyfer gynnwys ateb gofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Bydd yr Ysgol yn sicrhau eu bod yn ymlynu wrth fframiau amser cyfreithiol ar gyfer cadw data.

Byddwn yn cymryd camau rhesymol i ddifa neu ddileu o'n systemau yr holl ddata personol nad oes mo'i angen arnom mwyach. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gwrthrychau data'n cael eu hysbysu ynghylch y cyfnod y caiff data ei storio a sut y pennir y cyfnod hwnnw yn ein hysbysiadau preifatrwydd.

Cyfeirier at Bolisi Cadw Data'r Ysgol i gael rhagor o fanylion ynghylch sut y mae'r Ysgol yn cadw ac yn gwaredu data.

## **Egwyddor 6: Rhaid i ddata personol gael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a sefydliadol priodol i'w ddiogelu rhag cael ei brosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag iddo gael ei golli, ei ddifa neu ei ddifrodi'n ddamweiniol**

Er mwyn sicrhau y diogelir yr holl ddata a gaiff ei brosesu, bydd yr Ysgol yn datblygu, yn gweithredu ac yn cynnal mesurau diogelu a diogelwch rhesymol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mesurau megis: -

- Amgryptio;
- Rhoi dan ffugenw (mae hyn yn golygu bod yr Ysgol yn disodli gwybodaeth sy'n datgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol pwy yw unigolyn ag un neu fwy o ddynodwyr artiffisial neu ffugenwau fel nad yw'r person y mae'r data'n ymwneud â hwy'n gallu cael ei adnabod heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol sydd i fod i gael ei chadw ar wahân ac yn ddiogel);
- Sicrhau mynediad awdurdodedig (h.y. mai dim ond pobl y mae angen iddynt wybod y data personol sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad ato);
- Ymlynu wrth egwyddorion cyfrinachedd;
- Sicrhau bod data personol yn gywir ac yn addas ar gyfer y broses y caiff ei brosesu ar ei chyfer.

Mae'r Ysgol yn dilyn gweithdrefnau a thechnolegau i sicrhau diogelwch a bydd yn mynd ati'n rheolaidd i werthuso a phrofi effeithiolrwydd y mesurau diogelu hynny i sicrhau diogelwch wrth brosesu data personol.

Ni fydd yr Ysgol ond yn trosglwyddo data personol at ddarparwyr gwasanaethau trydydd parti sy'n cytuno i ymlynu wrth y polisiau a gweithdrefnau gofynnol ac yn cytuno i roi mesurau digonol ar waith.

### **Rhannu Data Personol**

Fel rheol, ni fydd yr Ysgol yn rhannu data personol gyda thrydydd parti onid oni bai bod mesurau diogelu a threfniadau cytundebol penodol wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod y canlynol yn wir am y trydydd parti: -

- Bod angen i'r trydydd parti wybod yr wybodaeth at ddibenion darparu'r gwasanaethau a gontractiwyd;

- Bod rhannu'r data personol yn cydymffurfio â'r hysbysiad preifatrwydd a ddarparwyd ar gyfer gwrthrych y data ac, os yw'n ofynnol, y cafwyd cydsyniad gwrthrych y data;
- Bod y trydydd parti wedi cytuno i gydymffurfio â'r safonau, polisïau a gweithdrefnau diogelwch data gofynnol ac i roi mesurau diogelwch digonol ar waith;
- Bod y trosglwyddiad yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiadau perthnasol ar drosglwyddo dros ffiniau; ac
- Y cafwyd contract ysgrifenedig a gyflawnir yn llawn sy'n cynnwys cymalau trydydd parti cymeradwy GDPR y DU.

Gall fod amgylchiadau lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu er budd pennaf ein disgyblion, rhieni neu staff bod yr Ysgol yn trosglwyddo gwybodaeth i awdurdodau allanol, er enghraifft yr awdurdod lleol, Estyn neu Lywodraeth Cymru. Mae'r awdurdodau hyn yn aros gyfuwch â chyfraith diogelu data ac mae ganddynt eu polisïau eu hunain mewn perthynas â diogelu unrhyw ddata y maent yn ei gael neu'n ei gasglu.

Bydd y bwriad i rannu data mewn perthynas ag unigolion gyda sefydliad y tu allan i'n Hysgol yn cael ei ddiffinio'n glir mewn hysbysiadu ysgrifenedig a bydd manylion a seiliau i rannu'r data hwnnw'n cael eu rhoi.

### **Trosglwyddo Data y Tu Allan i Ardal Economaidd Ewrop (AEE)**

Mae GDPR y DU yn cyfyngu ar drosglwyddiadau data i wledydd y tu allan i AEE er mwyn sicrhau nad yw'r lefel diogelu data a roddir i unigolion gan GDPR y DU yn cael ei thanseilio.

Ni fydd yr Ysgol yn trosglwyddo data i wlad arall y tu allan i AEE heb i fesurau diogelu priodol fod yn eu lle a chan gydymffurfio â GDPR y DU. Rhaid i'r holl staff gydymffurfio â chanllawiau'r Ysgol ar drosglwyddo data y tu allan i AEE. I osgoi amheuaeth, gall trosglwyddo data i wlad arall ddigwydd pan fyddwch yn trawsyrru, yn anfon, yn gweld neu'n cyrchu'r data hwnnw yn y wlad benodol honno.

### **Trosglwyddo Data y Tu Allan i'r DU**

Gall yr Ysgol drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r DU a/neu i sefydliadau rhyngwladol ar y sail bod y wlad, y diriogaeth neu'r sefydliad wedi'i d(d)ynodi fel un sydd â lefel ddiogelu ddigonol neu fod y sefydliad sy'n derbyn yr wybodaeth wedi darparu mesurau diogelu digonol ar ffurf rheolau corfforaethol sy'n rhwymo, cymalau diogelu data safonol neu gydymffurfiaeth â chod ymddygiad cymeradwy.

## **ADRAN 3 – HAWLIAU A CHEISIADAU GWRTHRYCH Y DATA**

Rhaid trefnu bod data personol er gael i wrthrychau data fel a nodir yn y polisi hwn a rhaid caniatáu i wrthrychau data arfer rhai hawliau penodol mewn perthynas â'u data personol.

Caiff yr hawliau sydd gan wrthrychau data o ran sut y mae'r Ysgol yn trin eu data personol eu nodi isod: -

- (a) (Lle dibynnir ar gydsyniad fel amod ar gyfer prosesu) I dynnu cydsyniad i brosesu yn ôl unrhyw bryd;
- (b) Cael gwybodaeth benodol am weithgareddau prosesu'r Ysgol;
- (c) Gofyn am fynediad at eu data personol yr ydym yn ei ddal (gweler "Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth" yn Atodiad 1);

- (d) Atal defnydd o'u data gennym ni at ddibenion marchnata;
- (e) Gofyn i ni ddileu data personol os nad yw'n angenrheidiol mwyach mewn perthynas â'r dibenion y cafodd ei gasglu neu ei brosesu ar eu cyfer neu i gywiro data anghywir neu i gwblhau data anghyflawn;
- (f) Cyfyngu ar brosesu dan amgylchiadau penodol;
- (g) Herio prosesu a gyfiawnhawyd ar sail ein buddiannau dilys neu er budd y cyhoedd;
- (h) Gofyn am gopi o gytundeb ar gyfer trosglwyddo data personol y tu allan i AEE;
- (i) Gwrthwynebu penderfyniadau sy'n seiliedig ar brosesu awtomatig yn unig;
- (j) Atal prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu drallod i wrthrych y data neu unrhyw un arall;
- (k) Cael eu hysbysu ynghylch achos o danseilio diogelwch data personol sy'n debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a rhyddid;
- (l) Cyfleu cwyn i'r awdurdod goruchwylio; ac
- (m) O dan amgylchiadau cyfyngedig, cael eu data personol neu ofyn am drosglwyddo eu data personol i drydydd parti ar ffurf strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac y gall peiriant ei darllen.

Os gwneir unrhyw gais i arfer yr hawliau uchod, mae'n un o'r gofynion bod yr aelod o staff perthnasol yn yr Ysgol yn gwirio pwy yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais.

### **Marchnata Uniongyrchol**

Rhaid i'r Ysgol ddilyn rhai rheolau a chyfreithiau preifatrwydd penodol wrth farchnata. Er enghraifft, bydd yn ofynnol cael cydsyniad gwrthrych y data rhag blaen ar gyfer marchnata uniongyrchol electronig (er enghraifft, trwy'r e-bost, negeseuon testun neu alwadau awtomatig).

Bydd yr Ysgol yn mynd ati'n benodol i gynnig y cyfle i unigolion wrthwynebu marchnata uniongyrchol a bydd yn gwneud hynny mewn fformat dealladwy sy'n eglur i'r unigolyn ei ddeall. Bydd yr Ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw wrthwynebiad unigol i farchnata uniongyrchol.

### **Rhwymedigaethau Cyflogeion**

Efallai y bydd cyflogeion yn cael mynediad at ddata personol aelodau eraill o staff, cyflenwyr, rhieni neu ddisgyblion yr Ysgol yn ystod eu cyflogaeth neu eu hymrwymiad. Os felly, mae'r Ysgol yn disgwyl i'r cyflogeion hynny helpu i gyflawni rhwymedigaethau diogelu data'r Ysgol tuag at yr unigolion hynny. Yn benodol, rhaid i chi: -

- Gyrchu dim ond y data personol y mae gennych awdurdod i gael mynediad ato, a hynny dim ond at ddibenion awdurdodedig;
- Dim ond caniatáu i eraill gael mynediad at ddata personol os ydynt wedi cael awdurdodiad priodol;
- Cadw data personol yn ddiogel (er enghraifft, trwy gydymffurfio â rheolau ar fynediad at safle'r ysgol, mynediad at gyfrifiaduron, diogelu â chyfrinair a storio a difa ffeiliau'n ddiogel);

- Peidio â symud data personol neu ddyfeisiau sy'n cynnwys data personol oddi ar safle'r Ysgol oni bai bod mesurau diogelwch priodol ar waith (megis rhoi dan ffugenw, amgryptio, diogelu â chyfrinair) i ddiogelu'r wybodaeth;
- Peidio â storio gwybodaeth bersonol ar yriannau lleol.

#### **ADRAN 4 - ATEBOLRWYDD**

Bydd yr Ysgol yn sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion diogelu data trwy roi mesurau technegol a sefydliadol priodol ar waith. Rydym yn gyfrifol am ac yn dangos atebolrwydd i egwyddorion GDPR y DU.

Mae'r Ysgol wedi cymryd y camau canlynol i sicrhau a dogfennu cydymffurfiaeth â GDPR y DU: -

#### **Swyddog Diogelu Data (SDD)**

Isod ceir manylion Swyddog Diogelu Data'r Ysgol: -

Swyddog Diogelu Data: Judicium Consulting Limited

Cyfeiriad: 72 Cannon Street, London, EC4N 6AE

E-bost: [dataservices@judicium.com](mailto:dataservices@judicium.com)

Gwefan: [www.judiciumeducation.co.uk](http://www.judiciumeducation.co.uk)

Ffôn: 0203 326 9174

Cyswllt Arweiniol: Craig Stilwell

Y Swyddog Diogelu Data sy'n gyfrifol am oruchwylio'r polisi diogelu data hwn ac am ddatblygu polisïau a chanllawiau sy'n gysylltiedig â data.

Cysylltwch â'r SDD gydag unrhyw gwestiynau am weithrediad y Polisi Diogelu Data hwn neu GDPR y DU neu os oes gennych unrhyw bryderon nad yw'r polisi hwn yn cael neu wedi cael ei ddilyn. Yn arbennig, rhaid i chi wastad gysylltu â'r SDD o dan yr amgylchiadau canlynol: -

- (a) Os ydych yn ansicr o'r sail gyfreithlon y mae'r Ysgol yn dibynnu arni i brosesu data personol;
- (b) Os oes arnoch angen dibynnu ar gydsyniad fel rheswm teg dros brosesu (gweler yr adran am gydsyniad isod i gael rhagor o fanylion);
- (c) Os oes arnoch angen drafftio hysbysiadau preifatrwydd neu hysbysiadau prosesu teg;
- (d) Os ydych yn ansicr ynghylch y cyfnodau cadw ar gyfer y data personol sy'n cael ei brosesu;
- (e) Os ydych yn ansicr pa fesurau diogelwch y mae angen eu rhoi yn eu lle i ddiogelu data personol;
- (f) Os bu achos o danseilio diogelwch data personol;
- (g) Os ydych yn ansicr ar ba sail i drosglwyddo data personol y tu allan i AEE;
- (h) Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i ymdrin ag unrhyw hawliau a alwyd i rym gan wrthrych data;
- (i) Pryd bynnag yr ydych yn ymgymryd â gweithgaredd prosesu newydd sylweddol (neu newid mewn gweithgaredd prosesu) sy'n debygol o olygu ei bod yn ofynnol cwblhau asesiad o'r effaith ar ddiogelu data neu os ydych yn bwriadu defnyddio data personol at ddibenion heblaw'r rhai y cafodd ei gasglu ar eu cyfer;



- (j) Os ydych yn bwriadu cyflawni unrhyw weithgareddau sy'n golygu prosesu awtomatig neu wneud penderfyniadau'n awtomatig;
- (k) Os oes arnoch angen help i gydymffurfio â chyfraith berthnasol wrth gyflawni gweithgareddau marchnata uniongyrchol;
- (l) Os oes arnoch angen help gydag unrhyw gontractau neu feysydd eraill mewn perthynas â rhannu data personol gyda thrydydd partïon.

### **Achosion o Danseilio Diogelwch Data Personol**

Mae GDPR y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgol hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ynghylch unrhyw achos perthnasol o danseilio diogelwch data personol.

Byddwn yn sefydlu gweithdrefnau i ymdrin ag unrhyw achos tybiedig o danseilio diogelwch data personol a byddwn yn hysbysu gwrthrychau'r data neu unrhyw reoleiddiwr perthnasol lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol ein bod yn gwneud hynny.

Os ydych chi'n gwybod neu'n amau bod achos o danseilio diogelwch data personol wedi digwydd, peidiwch â cheisio ymchwilio i'r mater eich hun. Cysylltwch ar unwaith â'r sawl sydd wedi'i ddynodi i fod y pwynt cyswllt allweddol ar gyfer achosion o danseilio diogelwch data personol (sef Mrs Sharon Jayne) neu eich SDD.

### **Tryloywder a Hysbysiadau Preifatrwydd**

Bydd yr Ysgol yn darparu gwybodaeth fanwl, benodol ar gyfer gwrthrychau data. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu trwy hysbysiadau preifatrwydd yr Ysgol sy'n gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hygyrch ac mewn iaith glir a phlaen fel bod gwrthrych data'n gallu eu deall yn rhwydd. Mae hysbysiadau preifatrwydd yn nodi gwybodaeth ar gyfer gwrthrychau data ynglŷn â sut y mae'r Ysgol yn defnyddio'u data ac mae hysbysiadau preifatrwydd yr Ysgol wedi eu teilwra i weddu i wrthrych y data.

Pryd bynnag yr ydym yn casglu data personol yn uniongyrchol gan wrthrychau data, gan gynnwys at ddibenion adnoddau dynol neu gyflogaeth, byddwn yn darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl GDPR y DU ar gyfer gwrthrych y data gan gynnwys manylion pwy yw'r swyddog diogelu data, manylion cyswllt yr Ysgol, sut a pham y byddwn yn defnyddio, prosesu, datgelu, diogelu a chadw data personol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu yn ein hysbysiad preifatrwydd.

Pan fo data personol yn cael ei gasglu'n anuniongyrchol (er enghraifft gan drydydd parti neu o ffynhonnell sydd ar gael yn gyhoeddus), byddwn yn darparu'r wybodaeth uchod ar gyfer gwrthrych y data cyn gynted â phosibl ar ôl cael y data. Bydd yr Ysgol hefyd yn cadarnhau a yw'r trydydd parti hwnnw wedi casglu a phrosesu data yn unol â GDPR y DU.

Bydd hysbysiadau yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a, lle y bo'n berthnasol, wedi eu hysgrifennu ar ffurf sy'n ddealladwy i'r rhai a ddiffinnir fel "plant" dan GDPR y DU.

### **Preifatrwydd Drwy Gynllunio**

Mae'r Ysgol yn mabwysiadu dull preifatrwydd drwy gynllunio o ran diogelu data i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data ac i roi mesurau technegol a sefydliadol ar waith mewn modd effeithiol.

Dull yw preifatrwydd drwy gynllunio sy'n hybu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth preifatrwydd a diogelu data o'r dechrau. I'n helpu i gyflawni hyn, mae'r Ysgol yn ystyried natur a dibenion y prosesu, unrhyw gost sy'n gysylltiedig â'i roi ar waith ac unrhyw risgiau i hawliau a rhyddid gwrthrychau'r data wrth roi prosesau data ar waith.

## **Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs)**

Er mwyn cyflawni dull preifatrwydd drwy gynllunio, mae'r Ysgol yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer unrhyw dechnolegau neu raglenni newydd a ddefnyddir gan yr Ysgol a allai effeithio ar brosesu data personol. Beth bynnag, mae'r Ysgol yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data pan fo hynny'n ofynnol yn ôl GDPR y DU dan yr amgylchiadau canlynol: -

- Ar gyfer defnyddio technolegau newydd (raglenni, systemau neu brosesau) neu dechnolegau newidiol;
- Ar gyfer defnyddio prosesu awtomatig;
- Ar gyfer prosesu data categori arbennig ar raddfa fawr;
- Ar gyfer monitro ardal sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn modd systematig, ar raddfa fawr (trwy ddefnyddio teledu cylch cyfyng).

Mae ein Hasesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data'n cynnwys: -

- Disgrifiad o'r gweithgaredd prosesu, ei ddibenion ac unrhyw fuddiannau dilys a ddefnyddir;
- Aseiad o anghenraid a chymesuredd y gweithgaredd prosesu mewn perthynas â'i ddiben;
- Aseiad o'r risg i unigolion; a hefyd
- Y mesurau lliniaru risg sydd ar waith a dangos cydymffurfiaeth.

## **Cadw Cofnodion**

Mae'n ofynnol i'r Ysgol gadw cofnodion llawn a chywir o'n gweithgareddau prosesu data. Mae'r cofnodion hyn yn cynnwys: -

- Enw a manylion cyswllt yr Ysgol;
- Enw a manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data;
- Disgrifiadau o'r mathau o ddata personol a ddefnyddir;
- Disgrifiad o wrthrychau'r data;
- Manylion gweithgareddau prosesu'r Ysgol a'u dibenion;
- Manylion unrhyw drydydd partion sy'n derbyn y data personol;
- Ble y caiff data personol ei storio;
- Cyfnodau cadw; a
- Mesurau diogelwch sydd ar waith.

## **Hyfforddiant**

Bydd yr Ysgol yn sicrhau bod yr holl bersonél perthnasol wedi cael hyfforddiant digonol i'w galluogi i gydymffurfio â chyfreithiau preifatrwydd data.

## **Archwilio**

Mae'r Ysgol yn profi ein systemau a phrosesau data'n rheolaidd er mwyn asesu cydymffurfiaeth. Gwneir y rhain trwy archwiliadau data sy'n digwydd yn rheolaidd er mwyn adolygu'r defnydd o ddata personol.

## **Polisiau Cysylltiedig**

Dylai staff gyfeirio at y polisiau canlynol sy'n gysylltiedig â'r polisi diogelu data hwn: -

Polisi Cadw Data CBS Pen-y-bont ar Ogwr

Hysbysiadau Preifatrwydd

### **Monitro**

Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y polisi hwn a'n holl bolisiau a gweithdrefnau ac yn cynnal adolygiad llawn ac yn eu diweddarau fel y bo'n briodol.

Bydd ein gwaith monitro ac adolygu'n cynnwys edrych sut y mae ein polisiau a'n gweithdrefnau'n gweithio'n ymarferol i leihau'r risgiau a achosir i'r Ysgol.

## **Atodiad 1 – Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth**

O dan Gyfraith Diogelu Data, mae gan Wrthrychau Data hawl gyffredinol i ganfod a yw'r Ysgol yn dal neu'n prosesu data personol amdanynt, i gael mynediad at y data hwnnw, ac i gael gwybodaeth atodol. Gelwir hyn yn hawl mynediad, neu'n hawl i wneud cais gwrthrych am wybodaeth. Diben yr hawl yw galluogi'r unigolyn i fod yn ymwybodol o, a gwirio, cyfreithlondeb prosesu data personol a gyflawnir gan yr Ysgol.

Mae gan Wrthrych Data hawl i gael ei hysbysu gan yr Ysgol ynghylch y canlynol: -

- (a) Cadarnhad bod ei ddata'n cael ei brosesu;
- (b) Mynediad at ei ddata personol;
- (c) Disgrifiad o'r wybodaeth sy'n cael ei phrosesu;
- (d) Y diben y mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu ar ei gyfer;
- (e) Y derbynyddion/dosbarth o dderbynyddion y mae'r wybodaeth honno'n cael neu y gall yr wybodaeth honno gael ei datgelu iddynt/iddo;
- (f) Manylion ffynonellau'r wybodaeth a gafwyd gan yr Ysgol;
- (g) Mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a gaiff ei brosesu at ddibenion gwerthuso materion mewn perthynas â Gwrthrych y Data sydd wedi bod neu sy'n debygol o fod yr unig sail i unrhyw benderfyniad sy'n effeithio'n arwyddocaol arno ef neu arni hi, cael ei hysbysu ynghylch rhesymeg proses benderfynu'r Rheolydd Data. Gall data o'r fath gynnwys, ymhlith pethau eraill, perfformiad yn y gwaith, teilyngdod i gael credyd, dibynadwyedd ac ymddygiad; a
- (h) Gwybodaeth atodol arall.

### **Sut i adnabod cais gwrthrych am wybodaeth**

Mae cais gwrthrych am wybodaeth yn gais gan unigolyn (neu gan rywun sy'n gweithredu gydag awdurdod unigolyn, e.e. cyfreithiwr neu riant sy'n gwneud cais mewn perthynas â gwybodaeth a ddelir am eu plentyn):

- am gadarnhau a yw'r Ysgol yn prosesu data personol amdano ef neu amdani hi ac, os felly
- am fynediad at y data personol hwnnw
- a/neu wybodaeth atodol benodol arall

Gall cais dilys gan wrthrych am wybodaeth fod yn ysgrifenedig (trwy lythyr, e-bost, neges destun WhatsApp) neu ar lafar (e.e. yn ystod sgwrs dros y ffôn). Gall y cais gyfeirio at GDPR y DU a/neu 'ddiogelu data' a/neu at 'ddata personol' ond nid oes angen iddo wneud hynny er mwyn bod yn gais dilys. Er enghraifft, bydd llythyr sy'n datgan 'a fydddech cystal â darparu copi ar fy nghyfer o wybodaeth y mae'r Ysgol yn ei dal amdanaf' yn gais gwrthrych am wybodaeth a dylid ei drin felly.

Fel rheol, dim ond eu data personol hwy eu hunain y mae gan wrthrych data hawl i'w gyrchu, ac nid gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl eraill.

### **Sut i wneud cais gwrthrych am wybodaeth**

Er nad oes gofyniad i wneud hynny, rydym yn annog unrhyw unigolion sy'n dymuno gwneud cais o'r fath i wneud y cais yn ysgrifenedig, gan nodi'n union beth yw'r data personol y gofynnir amdano. Mae hyn yn galluogi'r Ysgol i adnabod yn rhwydd eich bod yn dymuno gwneud cais gwrthrych am wybodaeth a beth yw natur eich cais. Os yw'r cais

yn aneglur / amwys efallai y bydd angen i ni gael eglurhad o gwmpas y cais a allai yn ei dro achosi oedi cyn dechrau'r cyfnod o amser ar gyfer ymdrin â'r cais.

### **Beth i'w wneud pan fyddwch yn cael cais gwrthrych am wybodaeth**

Dylai pob cais gwrthrych am wybodaeth gael ei gyfeirio ar unwaith at y Pennaeth a ddylai gysylltu â Judicium fel y SDD er mwyn cynorthwyo gyda'r cais a'r hyn sy'n ofynnol.

### **Cydnabod y cais**

Wrth dderbyn Cais Gwrthrych am Wybodaeth bydd yr Ysgol yn cydnabod y cais cyn gynted â phosibl ac yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud y cais am y terfyn amser statudol (o un mis calendr) i ymateb i'r cais.

Yn ogystal â chydnabod y cais, gall yr Ysgol ofyn am y canlynol:

- tystiolaeth i brofi pwy ydyw (os oes angen);
- eglurhad pellach o'r wybodaeth y gofynnir amdani;
- os nad yw'n glir i ble y dylid anfon yr wybodaeth, rhaid i'r Ysgol gael eglurhad ynghylch pa gyfeiriad post/e-bost i'w ddefnyddio wrth anfon yr wybodaeth y gofynnir amdani; a/neu
- gydysniad (os yn gofyn am ddata trydydd parti).

Dylai'r Ysgol weithio gyda'u SDD er mwyn creu'r gydnabyddiaeth.

### **Gwirio pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais neu ofyn am eglurhad o'r cais**

Cyn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth, bydd yr Ysgol yn cymryd camau rhesymol i wirio pwy yw'r sawl sy'n gwneud y cais. Yn achos cyflogeion cyfredol, bydd hyn yn syml fel arfer. Mae gan yr Ysgol hawl i ofyn am wybodaeth ychwanegol gan rywun sy'n gwneud cais er mwyn gwirio eu bod yn dweud y gwir ynglŷn â phwy ydynt. Lle mae gan yr Ysgol amheuan rhesymol ynghylch pwy yw'r unigolyn sy'n gwneud y cais, gellir gofyn iddynt gyflwyno tystiolaeth i brofi pwy ydynt ar ffurf pasbort, trwydded yrru, bil cyfleustodau diweddar gyda'r cyfeiriad cyfredol, tystysgrif geni/priodas, cyfriflen cerdyn credyd neu gyfriflen morgais.

Os yw unigolyn yn gofyn am swm mawr o ddata, gall yr Ysgol ofyn i'r sawl sy'n gwneud y cais am ragor o wybodaeth at ddiben cael eglurhad o'r cais, ond ni fydd yr Ysgol byth yn gofyn i'r sawl sy'n gwneud y cais pam fod y cais wedi cael ei wneud. Bydd yr Ysgol yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud y cais cyn gynted â phosibl lle mae angen rhagor o wybodaeth cyn ymateb i'r cais.

Yn y ddau achos, mae'r cyfnod ymateb yn dechrau pan fo'r wybodaeth ychwanegol wedi dod i law. Os nad yw'r Ysgol yn cael yr wybodaeth hon, ni fydd yn gallu cydymffurfio â'r cais.

### **Ceisiadau a wneir gan drydydd partiön neu ar ran plant**

Mae angen i'r Ysgol fod wedi'i hargyhoeddi bod gan y trydydd parti sy'n gwneud y cais hawl i weithredu ar ran yr unigolyn, ond cyfrifoldeb y trydydd parti yw darparu tystiolaeth o'r hawl hon. Gall hyn fod yn awdurdod ysgrifenedig i wneud y cais neu fe all fod yn atwrneiaeth fwy cyffredinol. Gall yr Ysgol ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd parti brofi pwy ydynt dan rai amgylchiadau hefyd.

Pan wneir ceisiadau ar ran plant, mae'n bwysig nodi, hyd yn oed os yw plentyn yn rhy ifanc i ddeall goblygiadau hawliau mynediad y gwrthrych, mai hawl y plentyn ydyw o hyd, yn hytrach nag unrhyw un arall megis rhiant neu warcheidwad, i gael mynediad at ddata personol y plentyn. Cyn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth a ddelir am blentyn,

dylai'r Ysgol ystyried a yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau. Os yw'r Ysgol yn hyderus y gall y plentyn ddeall ei hawliau, yna fel arfer dylai'r Ysgol ymateb yn uniongyrchol i'r plentyn neu geisio'i gydsyniad cyn rhyddhau ei wybodaeth.

Dylid asesu a yw'r plentyn yn gallu deall (yn fras) beth mae'n ei olygu i wneud cais gwrthrych am wybodaeth a sut i ddehongli'r wybodaeth y bydd yn ei chael o ganlyniad i wneud hynny. Wrth ystyried achosion ffiniol, dylid ystyried y canlynol ymhlith pethau eraill:

- lefel aeddfedrwydd y plentyn a'i allu i wneud penderfyniadau fel hyn;
- natur y data personol;
- unrhyw orchmynion llys mewn perthynas â hawl rhiant i weld y plentyn neu gyfrifoldeb rhiant am y plentyn a all fod yn berthnasol;
- unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd sy'n ddyledus i'r plentyn neu'r person ifanc;
- unrhyw ganlyniadau pe caniateid i'r rhai â chyfrifoldeb rhiant gael mynediad at wybodaeth y plentyn neu'r person ifanc. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bu honiadau o gam-drin neu driniaeth wael;
- unrhyw niwed i'r plentyn neu'r person ifanc os nad yw unigolion â chyfrifoldeb rhiant yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth hon; ac
- unrhyw farn sydd gan y plentyn neu'r person ifanc wrth ystyried a ddylai ei rieni gael mynediad at wybodaeth amdano/amdani.

Ar y cyfan, tybir bod person sy'n 12 oed neu drosodd o oedran ac aeddfedrwydd digonol i allu arfer ei hawl mynediad, oni bai y dangosir i'r gwrthwyneb. Mewn perthynas â phlentyn sy'n 12 oed neu'n hŷn, yna ar yr amod bod yr Ysgol yn hyderus ei fod yn deall ei hawliau, ac nad oes rheswm dros gredu nad yw'r plentyn yn meddu ar y galluedd i wneud cais ar ei ran ei hun, bydd yn ofynnol i'r Ysgol gael awdurdodiad ysgrifenedig oddi wrth y plentyn cyn ymateb i'r sawl sy'n gwneud y cais, neu bydd yn darparu'r data personol yn uniongyrchol ar gyfer y plentyn.

Gall yr ysgol hefyd wrthod darparu gwybodaeth ar gyfer rhieni os oes canlyniadau pe caniateid mynediad at wybodaeth y plentyn – er enghraifft os yw'n debygol o achosi niwed i'r plentyn.

### **Ffi am ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth**

Bydd yr Ysgol fel arfer yn ymdrin â Chais Gwrthrych am Wybodaeth yn rhad ac am ddim. Lle ystyrir bod cais yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol gellir gofyn am ffi i dalu costau gweinyddol.

### **Cyfnod o Amser ar gyfer Ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth**

Mae gan yr Ysgol un mis calendr i ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth. Bydd hwn yn rhedeg o'r diwrnod y daeth y cais i law neu o'r diwrnod y daw unrhyw fanylion adnabod ychwanegol y gofynnwyd amdanynt neu wybodaeth arall y gofynnwyd amdani i law, neu y bydd unrhyw ffi ofynnol wedi cael ei thalu.

Gellir rhoi estyniad o hyd at ddau fis calendr pellach ar y cyfnod ymateb mewn perthynas â cheisiadau cymhleth. Bydd yr hyn sy'n gyfystyr â chais cymhleth yn dibynnu ar natur benodol y cais. Rhaid ymgynghori â'r SDD bob amser wrth benderfynu a yw cais yn ddigon cymhleth i roi estyniad ar y cyfnod ymateb.

Lle ystyrir bod cais yn ddigon cymhleth i'w gwneud yn ofynnol rhoi estyniad ar y cyfnod ymateb, bydd angen i'r Ysgol hysbysu'r sawl sy'n gwneud y cais o fewn un mis calendr i gael y cais, ynghyd â'r rhesymau pam yr ystyrir bod yr estyniad hwn yn angenrheidiol.

### **Cyfnodau cau'r Ysgol**

Efallai na fydd modd ymateb o fewn y cyfnod ymateb o un mis calendr i geisiadau sy'n dod i law yn ystod neu'n union cyn cyfnodau cau'r ysgol. Y rheswm dros hyn yw y bydd yr Ysgol ar gau ac na fydd unrhyw un ar y safle i gydymffurfio. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd modd ymdrin â'ch cais yn ystod yr amser hwn. Efallai na fyddwn yn gallu cydnabod eich cais yn ystod yr amser hwn (h.y. hyd nes y byddwn yn cael y cais); fodd bynnag, os gallwn gydnabod y cais efallai y byddwn yn dal i fethu ag ymdrin ag ef nes bod yr Ysgol yn ailagor. Bydd yr Ysgol yn ymdrechu i gydymffurfio â cheisiadau cyn gynted â phosibl a bydd yn cyfathrebu'n gyson gyda chi hyd y gellir. Os yw eich cais yn un brys, darparwch eich cais yn ystod y tymor os gwelwch yn dda ac nid yn ystod cyfnodau cau/yn agos at gyfnodau cau.

### **Gwybodaeth sydd i'w darparu mewn ymateb i gais**

Mae gan yr unigolyn hawl i gael mynediad at y data personol yr ydym yn ei brosesu amdano neu amdani.

Dylai'r wybodaeth gael ei darparu mewn ffordd sy'n gryno, yn dryloyw, yn hawdd i'w deall ac yn hygyrch gan ddefnyddio iaith glir a phlaen, gydag unrhyw dermau technegol, talfyriadau neu godau'n cael eu hegluro. Dylid rhoi'r ymateb yn ysgrifenedig os gwnaed y Cais Gwrthrych am Wybodaeth yn ysgrifenedig a hynny mewn fformat electronig a ddefnyddir yn gyffredin.

Rhaid i'r wybodaeth y mae'n ofynnol i'r Ysgol ei darparu mewn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth gael ei darparu gan gyfeirio at y data dan sylw ar yr adeg y daeth y cais i law. Fodd bynnag, gan bod gan yr Ysgol un mis i ymateb, caniateir i'r Ysgol ystyried unrhyw weithred a gyflawnwyd i ddiwygio neu ddileu'r data personol rhwng yr amser y daeth y cais i law a'r amser y darparir y data personol pe bai'r weithred i ddiwygio neu ddileu wedi cael ei chyflawni pa un a gafwyd y Cais Gwrthrych am Wybodaeth ai peidio.

Felly caniateir i'r Ysgol gyflawni gweithgareddau cymhennu rheolaidd hyd yn oed os yw hyn yn golygu dileu neu ddiwygio data personol ar ôl i Gais Gwrthrych am Wybodaeth ddod i law. Ni chaniateir i'r Ysgol ddiwygio na dileu data i osgoi darparu'r data.

### **Sut i ddod o hyd i wybodaeth**

Gall y data personol y mae angen i'r Ysgol ei ddarparu mewn ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth fod wedi'i leoli mewn nifer o'r systemau ffeilio electronig a phapur. Dyma pam ei bod yn bwysig nodi ar y dechrau un pa fath o wybodaeth y gofynnir amdani fel y gellir bod â ffocws pendant wrth chwilio.

### **Diogelu trydydd partïon – esemptiadau i hawl mynediad y gwrthrych**

Ceir amgylchiadau lle gellir dal gwybodaeth yn ôl mewn perthynas â Chais Gwrthrych am Wybodaeth. Dylai'r esemptiadau a'r ceisiadau penodol hyn gael eu hystyried fesul achos unigol.

Bydd yr ysgol yn ystyried a yw'n bosibl golygu gwybodaeth fel nad yw'n ei gwneud yn bosibl adnabod y trydydd partïon hynny. Os na ellir golygu eu data (er enghraifft, os yw'n dal yn amlwg ar ôl golygu'r data â phwy y mae'r data'n ymwneud) yna nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu data personol i'r graddau y byddai gwneud hynny'n golygu datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn arall (gan gynnwys gwybodaeth sy'n ei gwneud

yn bosibl adnabod yr unigolyn arall fel ffynhonnell yr wybodaeth) y gellir ei adnabod o'r wybodaeth oni bai:

- bod yr unigolyn arall wedi rhoi cydsyniad i ddatgelu'r wybodaeth; neu
- ei bod yn rhesymol cydymffurfio â'r cais heb gydsyniad yr unigolyn hwnnw.

Wrth benderfynu a yw'n rhesymol datgelu'r wybodaeth heb gydsyniad yr unigolyn, bydd yr holl amgylchiadau perthnasol yn cael eu cymryd i ystyriaeth, gan gynnwys:

- y math o wybodaeth y byddent yn ei datgelu;
- unrhyw ddyletswydd cyfrinachedd y mae arnynt tuag at yr unigolyn arall;
- unrhyw gamau a gymerwyd i geisio cydsyniad gan yr unigolyn arall;
- pa un a yw'r unigolyn arall yn gallu rhoi cydsyniad; ac
- unrhyw wrthodiad penodol i roi cydsyniad gan yr unigolyn arall.

Mae angen penderfynu a yw'n briodol datgelu'r wybodaeth ym mhob achos. Bydd y penderfyniad hwn yn golygu taro cydbwysedd rhwng hawl mynediad gwrthrych y data ar y naill law a hawliau'r unigolyn arall ar y llaw arall. Os yw'r person arall yn rhoi cydsyniad i'r ysgol ddatgelu'r wybodaeth amdanynt, yna byddai'n afresymol peidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, os nad oes cydsyniad o'r fath, rhaid i'r Ysgol benderfynu a yw'n mynd i ddatgelu'r wybodaeth beth bynnag. Os oes unrhyw bryderon yn hyn o beth yna dylid ymgynghori â'r SDD.

### **Esemptiadau eraill i hawl mynediad y gwrthrych**

O dan rai amgylchiadau gall yr Ysgol fod wedi'i hesemptio rhag darparu peth neu'r cyfan o'r data personol y gofynnwyd amdano. Caiff yr esemptiadau hyn eu disgrifio isod ac ni ddylid ond eu cymhwyso fesul achos unigol a hynny ar ôl ystyried yr holl ffeithiau'n ofalus.

Canfod ac atal trosedd: Nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu unrhyw ddata personol sy'n cael ei brosesu at ddibenion atal neu ganfod trosedd; dal neu erlyn troseddwy; neu asesu neu gasglu unrhyw dreth neu doll.

Geirdaon cyfrinachol: Nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu unrhyw eirdaon cyfrinachol a roddwyd i drydydd partïon at ddiben achos gwirioneddol neu ddarparu achos o:

- roi addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i'r unigolyn;
- penodi'r unigolyn i unrhyw swydd; neu
- ddarparu unrhyw wasanaeth gan yr unigolyn

Nid yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i eirdaon cyfrinachol y mae'r Ysgol yn eu cael gan drydydd partïon. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, gall caniatáu mynediad at y geirda ddatgelu data personol unigolyn arall (h.y. y sawl a roddodd y geirda), sy'n golygu bod rhaid i'r Ysgol ystyried y rheolau ynghylch datgelu data trydydd parti a nodir uchod cyn datgelu'r geirda.

Braint broffesiynol gyfreithiol: Nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu unrhyw ddata personol sy'n ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol.

Rhagweld gan y rheolwyr: Nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu unrhyw ddata personol a gaiff ei brosesu at ddibenion rhagweld gan y rheolwyr neu gynllunio gan y rheolwyr i'n cynorthwyo i gynnal unrhyw fusnes neu gyflawni unrhyw weithgaredd arall.



Negodiadau: Nid oes rhaid i'r Ysgol ddatgelu unrhyw ddata personol sy'n cynnwys cofnodion o fwriadau mewn perthynas ag unrhyw negodiadau gyda'r unigolyn lle byddai gwneud hynny'n debygol o beryglu'r negodiadau hynny.